

# Cadw'r nefoedd yn ein golygon

*“Oherwydd yr oedd ef yn disgwyl am ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi.” (adn. 10)*

## Beth am ddarllen Hebreaid 11:1–10 ac yna myfyrio

Yr ydym am symud ymlaen yn awr i ystyried yr awgrym na ddylai'r nefoedd fyth fod ymhell o'n meddwl wrth i ni deithio drwy'r byd. Gall rhai ymateb i hyn trwy ddweud, “Mae'n siŵr fod ystyriaeth gyson am y nefoedd am amharu ar ein gwaith, yr hyn yr ydym i'w gyflawni yma ar y ddaear.” Mae'n siŵr y gall. Ond yr hyn yr wyf am ei awgrymu yw golwg glir a chyson ar y mater, gan roi nid rhy ychydig ac nid gormod o ystyriaeth.

Wrth ddarllen yr hanes Cristnogol a hanes Cristnogion, yr wyf wedi dod i'r casgliad mai y Cristnogion sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf i fywyd y byd yw'r rhai sydd wedi meddwl am y bywyd nesaf. Gellir dadlau, a dadlau yn llwyddiannus, fod y Cristnogion hynny sydd byth yn caniatáu i'w hunain feddwl am y byd tu hwnt i hwn, yn gyffredinol yn aneffeithiol yn eu gwaith. A dweud y gwir, mae'r rhan fwyaf ohonom yn mynd trwy'n bywyd gyda'n golygon ar y byd yn unig. Nid ydym yn edrych nac yn disgwyl am y nefoedd. Peth arall sydd yn rhyfeddol yw fod y rhai sydd â'u llygaid wedi eu dyrchafu yn sylweddoli fod pethau'r ddaear yn dod yn bwysig yn eu golwg, bod amser yn bwysig fel y mae tragwyddoldeb yn bwysig. Mae'r atgof parhaus ein bod ar daith i ddinas, pensaer ac adeiladydd yr hon yw Duw, yn peri ein bod yn cadw popeth yn y byd yma mewn persbectif iawn. Mae'n golygu nad ydym yn dal gafael rhy dynn ym mhethau'r byd, gan mai pethau dros dro yw'r cyfan. Yn ôl y Cardinal Newman, y rhai hynny sydd yn gweld y Jerwsalem newydd uwchben yw'r rhai sydd yn gweithio yn effeithiol dros y Jerwsalem newydd yn y byd. Mae gan y rhain batrwm bendigedig i weithio tuag ato.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Col. 1:1–8; Titus 2:1–14; Heb. 6:19

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y bu i Paul gysylltu amser â thragwyddoldeb?
2. Beth a rydd gobaith y nefoedd i ni?

## Gweddi

O Dad, maddau i mi fod fy ngolwg, yn aml, ddim ond ar y byd, fy mod yn meddwl yn aml am bethau sydd ar ddarfod, yn hytrach nag ar y pethau sydd yn dragwyddol. Helpa fi heddiw i newid hyn. Rwy'n gofyn yn enw bendigedig Iesu. Amen.